

**Tŷ Gwyn Hall  
Llandeilo Bertholau  
Y Fenni  
NP7 6NY**

**Adroddiad 2010-2011**

## **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

Tŷ Bevan  
Parc Busnes Caerffili  
Ffordd Fan  
CAERFFILI  
CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850  
Ffacs: 029 2092 8877

**[www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)**



ISBN 978 0 7504 6146 7  
© Hawlfraint y Goron 2011  
WAG10-11810

Dyddiad Arolygu:	Rheolwr Arolygu:
<b>9 Tachwedd 2010</b>	<b>Mr John Powell</b>

## Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru fod wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae AGIC yn gweithredu fel y rheoleiddiwr gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru, sydd yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi eu dynodi fel yr awdurdod cofrestru.

Er mwyn cofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae AGIC yn rhoi cydymffurfiad darparwyr ar brawf trwy asesu pob asiantaeth a sefydliad cofrestredig yn erbyn cyfres o *Safonau Gofynnol Cenedlaethol*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n gosod y safonau gofynnol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau gofal iechyd annibynnol. Mae mwy o wybodaeth am y safonau a'r rheoliadau ar gael ar ein gwefan yn: [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai bwriad yr adroddiad hwn yw adlewyrchu canfyddiadau'r digwyddiad arolygu. Ni ddylai darllenwyr gymryd yn ganiataol y bydd amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser.

## Cefndir a Phrif Ganfyddiadau

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd yn Tŷ Gwyn Hall ar 9 Tachwedd 2010 gan reolwr Arolygu, un adolygwr gofal iechyd annibynnol, un adolygwr Deddf Iechyd Meddwl a chynorthwy-ydd arolygu. Cofrestrwyd yr ysbyty am y tro cyntaf ym mis Mawrth 1987 ac ar hyn o bryd mae wedi ei gofrestru i dderbyn 34 o gleifion dros 18 mlwydd oed â phroblemau iechyd meddwl gweithredol, a allai fod yn agored i gael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Eiddo Parkcare Homes Ltd, sy'n is-gwmni a berchnogir yn gyfan gwbl gan Craegmoor Healthcare Ltd., yw'r ysbyty.

Roedd y prif gartref yn darparu llety i 18 o gleifion. Ceir hefyd estyniad mawr a gofrestrwyd ym mis Mehefin 2008 lle y darperir 12 gwely ychwanegol fel uned asesu ar gyfer dynion a menywod, a chyfleuster '*camu lawr*' ychwanegol â phedwar gwely. Gwnaed gwaith ailwampio sylweddol yn ystod 2008 ac yn gynnar yn 2009, ac roedd hyn wedi gwella'r cyfleusterau amgylcheddol ar gyfer y grŵp o gleifion yn fawr.

Cyn yr arolygiad, cyflwynodd y rheolwr cofrestredig ffurflen hunanasesu a oedd wedi ei llenwi'n gynhwysfawr, ac ystod o ddogfennau ategol. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar ddadansoddi ystod o ddogfennau gan gynnwys archwilio cofnodion y cleifion a thrafod gyda'r rheolwr cofrestredig, aelodau eraill o'r staff a rhai o'r cleifion.

O ran prif ganfyddiadau'r arolygiad, roedd y darparwr a'r rheolwr cofrestredig wedi sefydlu:

- Datganiad o ddiben cynhwysfawr a oedd yn y broses o gael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y lefelau staffio a'r ffaith bod yr amodau cofrestru wedi'u hamrywio er mwyn i'r uned '*camu lawr*' allu darparu llety i ddynion a menywod. Roedd canllaw cleifion cynhwysfawr ar gael hefyd.
- System o ddogfennau gofal a oedd yn gynhwysfawr iawn, ond ni welwyd tystiolaeth bod rhai o'r cynlluniau gofal yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd. Hefyd, nid oedd gan un claf asesiad risg na chynllun rheoli am sawl wythnos ar ôl cael ei dderbyn. Nid oedd nodiadau'r cleifion wedi eu cyfuno i greu un cofnod amlddisgyblaethol, ac roedd adrannau ar wahân i'r clinigwr cyfrifol, y gweithiwr cymdeithasol, y therapydd galwedigaethol a'r seicolegydd gofnodi gwybodaeth. Gwelwyd peth tystiolaeth bod safbwyntiau'r cleifion am eu gofal a'u triniaeth yn cael eu hystyried, ond nid oedd cofnod bod y drefn feddyginiaeth a'r sgil effeithiau a'r risgiau sy'n wybyddus yn cael eu cofnodi'n llawn a'u hesbonio i'r cleifion. Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd i ddangos bod gofaluwr a theuluoedd y cleifion yn cael cyfle i ymwneud â rhai agweddau ar raglen driniaeth y cleifion. Os nad yw hynny'n briodol, dylid

cofnodi'r ffaith yn eglur. Hefyd, o ran Deddf Iechyd Meddwl 1983, roedd diffyg tystiolaeth yn nogfennau'r cleifion bod y cleifion yn derbyn esboniad o'u hawliau yn rheolaidd.

- Ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau ac arnynt y dyddiad y'u lluniwyd a'r dyddiad y rhagwelir eu hadolygu. Yn anffodus, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ymarferwyr meddygol wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w maes gwaith.
- Roedd rhaglen hyfforddi staff wedi ei sefydlu ac roedd yn cynnwys ystod o bynciau megis atal tân, cydraddoldeb ac amrywiaeth, cymorth cyntaf, diogelwch bwyd, lechyd a Diogelwch, rheoli heintiau, codi a chario ac Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed. Fodd bynnag, yn anffodus, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ymarferwyr meddygol wedi dilyn hyfforddiant atal tân, Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed na hyfforddiant iechyd a diogelwch. Hefyd, roedd nifer sylweddol o'r staff heb ddilyn hyfforddiant ynglŷn ag ymyriad corfforol, Deddf Iechyd Meddwl 1983 nac amddiffyn plant.
- Roedd sesiwn hyfforddi gynhwysfawr wedi ei chynnal ynglŷn â thriniaeth ar gyfer dibyniaeth, ac roedd cyfanswm o un ar bymtheg o staff yn bresennol.
- Roedd y sefydliad yn y broses o wneud cais am gofrestrriad uwch *'Buddsoddwyr mewn Pobl'*, ac roedd datblygu a hyfforddi staff yn rhan ganolog o'r broses hon.
- Roedd ystod o weithgareddau/therapiau yn cael eu cynnig gan gynnwys: coginio, rheoli cyllideb, therapi cerddoriaeth, celf a chrefft a nifer o weithgareddau hamdden yn cynnwys siopa a physgota. Roedd nifer o'r cleifion y siaradwyd â hwy yn feirniadol ynglŷn â'r diffyg gweithgareddau a oedd ar gael, ac roedd yn ymddangos bod hon yn broblem benodol ar y penwythnos.
- Roedd nifer o feysydd wedi bod yn destun archwiliad gan gynnwys adolygiad o arferion clinigol, dadebru, Caniatâd i Dderbyn Triniaeth - Y Ddeddf Iechyd Meddwl, archwiliadau iechyd, ymyriadau corfforol a meddyginiaeth. Roedd yr adroddiadau yn nodi rhai meysydd yr oedd angen cymryd camau ynglŷn â hwy, ac roedd yr ysbyty wedi ymdrin â'r rhain. Cynhaliwyd archwiliad diwethaf Craegmoor yn ystod 2008 ac mae angen ailadrodd yr archwiliad cynhwysfawr hwn.

- Roedd asesiad o'r manau rhwymo wedi ei gynnal a chamau cywiro wedi eu nodi, ond yn anffodus, o ran dyddiadau cwblhau, roedd nifer o feysydd yn parhau i fod heb eu bodloni. Mae angen ymdrin â hyn fel mater o frys.

O ran canfyddiadau eraill yr arolygiad, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan y cleifion ynglŷn ag agwedd y grŵp staff a'r gefnogaeth yr oeddynt yn ei derbyn ganddynt. Roedd y cleifion a'r staff yn canmol y rheolwr yn fawr ac mae'n amlwg bod ganddynt barch mawr at ei ddull o arwain y sefydliad.

Roedd gwasanaeth eiriolaeth ar gael ac yn ymweld â'r ysbyty bob wythnos; roedd manylion y gwasanaeth eiriolaeth yn cael eu harddangos ar y wardiau.

Edrychwyd yn gyffredinol ar y dull o archebu, cadw, defnyddio a gwaredu meddyginiaeth ar Ward Skirrid View a nodwyd nifer o arsylwadau. Nid oedd cofnod meddyginiaeth cyffuriau un claf yn cyd-fynd â'r cyfarwyddiadau ar y blwch meddyginiaeth ac nid oedd y rhagnodwr wedi llofnodi'r cofnodion. Defnyddir Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain fel ffynhonnell er mwyn cyfeirio ato, ac roedd copi ar gael ond gyda'r dyddiad Mawrth 2009. Nid oedd unrhyw gyffuriau rheoledig yn cael eu cadw yn y sefydliad ac roedd nifer o'r cleifion ar gamau gwahanol o hunanfeddyginiaethu. Hefyd, roedd cyfarwyddiadau penodol ynglŷn â rhoi meddyginiaeth i gleifion wedi eu cofnodi'n gynhwysfawr yn y cynlluniau gofal. Daethpwyd i'r casgliad felly bod ystod o bolisïau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu ynglŷn â rheoli ac ymdrin â meddyginiaeth yn ddiogel.

O ran caniatâd i adael dan Adran 17, nid oedd yr holl amodau bob amser wedi eu cofnodi ar ffurflen caniatâd i adael Adran 17 ac nid oedd y cleifion yn derbyn copïau o'r ffurflenni hyn fel rhan o'r drefn arferol.

Roedd y gwasanaeth arlwygo i gleifion yn darparu tri phryd bwyd y dydd. Roedd yn amlwg bod dewis ac amrywiaeth ar gael, a gwneir darpariaeth ar gyfer anghenion dietegol arbennig. Câi'r cleifion ofyn am ffrwythau a diodydd poeth unrhyw bryd. Roedd safbwyntiau'r cleifion ynglŷn â'r arlwygo yn gadarnhaol yn gyffredinol, ond roedd rhai o'r cleifion yn cwyno nad oeddynt yn cael digon o fwyd, yn enwedig gyda'r nos.

Roedd yr amgylchedd, yn gyffredinol, yn braf ac yn gyfforddus ac roedd llawer o eitemau personol yn ystafelloedd unigol y cleifion. Fodd bynnag, roedd yr ystafelloedd bwyta'n eithriad i hyn ac yn ymddangos yn ddigroeso. Byddai ambell i lun yn gwella'r amgylchedd yn fawr. Roedd tai bach ac ystafelloedd ymolchi penodol ar gael ar gyfer dynion a menywod. Nid oedd unrhyw gyfleusterau addas ar gael yn y sefydliad ar gyfer plant a oedd yn ymweld.

Nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod yr holl staff wedi derbyn y brechiadau gofynnol ac roedd yn ymddangos bod hon yn broblem benodol yn achos staff a oedd newydd eu penodi a'r rhai hynny a oedd wedi gwrthod y brechiadau a oedd ar gael.

Dymuna'r Rheolwr Arolygu ddiolch i'r rheolwr cofrestredig, y staff a'r cleifion am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad arolygu.

## **Llwyddiannau a Chydymffurfiad**

Nodwyd pedwar gofyniad yn yr adroddiad arolygu diwethaf. Roedd AGIC wedi derbyn cynllun gweithredu ac mae'r ysbyty wedi ymdrin â phob un o'r gofynion.

O ran llwyddiannau, roedd yn amlwg iawn trwy gydol yr ymweliad arolygu bod perthynas gadarnhaol iawn rhwng y cleifion a'r staff. Hefyd roedd y fenter '*your voice*' wedi ei gwella ymhellach i gynnwys a grymuso'r cleifion i ddylanwadu ar benderfyniadau polisi corfforaethol a allai effeithio ar raglenni gofal unigol.

## **Mathau o Gofrestriad**

Caniateir cofrestriad yn ôl y math o wasanaeth a ddarperir. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y mathau canlynol o wasanaeth:

Disgrifiad
<b>Ysbyty annibynnol gyda gwelyau dros nos sy'n darparu triniaethau meddygol ar gyfer iechyd meddwl (gan gynnwys cleifion a gedwir dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983).</b>

## Amodau Cofrestru

Mae'r cofrestriad hwn yn amodol ar y canlynol. Archwilir cydymffurfiaid ar gyfer pob amod. Disgrifir y dyfarniad fel Cydymffurfio, Ddim yn Cydymffurfio neu Sicrwydd Annigonol.

Rhif yr Amod	Amod y Cofrestriad	Dyfarniad
1.	<p>Ni cheir rhoi llety yn y sefydliad i fwy na thri deg pedwar (34) o bobl ar unrhyw un amser fel y nodir isod.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Tŷ Gwyn (uned adsefydlu 18 gwely i'r ddau ryw).</li> <li>▪ Skirrid View (uned asesu 12 gwely i'r ddau ryw).</li> <li>▪ Pentwyn House (uned 4 gwely 'camu lawr' i un rhyw).</li> </ul>	Yn cydymffurfio
2.	<p>Mae'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru i ddarparu'r canlynol yn unig:</p> <p>a) Yn amodol ar amod 3) isod, triniaeth feddygol a seiciatrig i adsefydlu dynion a menywod:</p> <p>i) Sy'n oedolion (dros 18 mlwydd oed) â diagnosis o salwch meddwl.</p> <p>ii) A allai fod yn agored i gael eu cadw dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983.</p>	Yn cydymffurfio
3.	<p>Ni chaniateir i'r unigolyn cofrestredig dderbyn na rhoi llety i'r categorïau canlynol o gleifion:</p> <p>a) Pobl heb brif ddiagnosis o salwch meddwl.</p> <p>b) Pobl sydd ag angen gofal a thriniaeth mewn amgylchiadau diogel.</p> <p>c) Pobl â diagnosis o anabledd dysgu dwys i ganolig.</p> <p>ch) Pobl mewn cyfnod trwblus aciwt o'u salwch meddwl.</p> <p>d) Pobl â salwch angheuol ac sydd ag angen ymyriadau nyrsio corfforol dwys.</p> <p>dd) Pobl mewn cyfnod aciwt o salwch meddygol ac sydd ag angen nyrsio corfforol dwys.</p>	Yn cydymffurfio
4.	<p>Rhaid trefnu'r llety ar gyfer dynion a menywod mewn modd sy'n sicrhau bod yr ystafelloedd gwely ar gyfer pob un gyda'i gilydd a'u bod yn gyfagos i gyfleusterau ymolchi penodedig y grŵp cleifion o'r rhyw hwnnw.</p>	Yn cydymffurfio
5.	<p>Darperir y lefelau staffio gofynnol ar gyfer y sefydliad fel y nodir yn y Datganiad o Ddiben y cytunwyd y gellir ei ddsbarthu ar 17 Hydref 2007.</p>	Yn cydymffurfio



## Asesiadau

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn arolygu safleoedd yn uniongyrchol er mwyn asesu safonau. Os ydym yn nodi meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni'r safonau gofynnol neu ddim yn cydymffurfio â'r rheoliadau, neu os nad oes gennym dystiolaeth ddigonol i ddangos bod y safon ofynnol o berfformiad yn cael ei chyflawni, hysbysir y person cofrestredig am hyn trwy'r adroddiad arolygu hwn. Efallai hefyd y bydd achlysuron pan nodir diffygion mwy difrifol neu sydd angen sylw ar frys, ac efallai y bydd y person cofrestredig wedi ei hysbysu trwy lythyr hefyd o ganfyddiadau a champau i'w cymryd, ond bydd y materion hynny hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad arolygu hwn. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn penderfynu ar amlder ac angen ar gyfer arolygu sefydliad, ar sail gwybodaeth a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani, ers cynnal yr arolygiad diwethaf. Cyn cynnal arolygiad, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried y wybodaeth sydd ganddi am berson cofrestredig. Gallai hyn gynnwys hunanasesiad yn erbyn y safonau, canfyddiadau'r adroddiad arolygu blaenorol ac unrhyw gynllun gweithredu a gyflwynwyd, adroddiadau o ymweliadau darparwr, y Datganiad o Ddiben ar gyfer y sefydliad neu'r asiantaeth, ac unrhyw wybodaeth am gwynion neu bryderon am y person cofrestredig a'r gwasanaethau.

Rydym yn defnyddio pedwar datganiad ar gyfer canlyniad wrth asesu pob safon:

Safon wedi ei bodloni	Dim diffygion: cyflawni'r safonau gofynnol o berfformiad.
Safon bron wedi ei bodloni	Mân ddiffygion: dim diffygion sylweddol, ac mae'n ymddangos y gellir cyflawni'r safonau gofynnol o berfformiad heb weithgaredd ychwanegol helaeth.
Safon heb ei bodloni	Diffygion sylweddol: mae angen camau sylweddol er mwyn cyflawni'r safonau gofynnol o berfformiad.
Safon heb ei harolygu	Mae hyn naill ai oherwydd nad oedd y safon yn berthnasol, neu, yn dilyn asesiad o'r wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth ac am y sefydliad neu'r asiantaeth, ni nodwyd unrhyw risgiau ac o ganlyniad penderfynwyd nad oedd angen archwilio'r safon ymhellach yn ystod yr arolygiad hwn.

## Asesiadau a Gofynion

Mae'r asesiadau wedi eu gosod mewn grwpiau dan y penawdau canlynol, ac mae pob safon yn dangos ei rhif cyfeirnod:

- Safonau Craidd
- Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth

Talfyriadau Safonau:

C = Safonau craidd

A = Safonau aciwt

MH = Safonau iechyd meddwl

H = Safonau hosbis

MC = Safonau mamolaeth

TP = Safonau terfynu beichiogrwydd

P = Safonau technegau a thechnoleg ragnodedig

PD = Safonau meddygon preifat

Os nad yw'r person cofrestredig wedi bodloni unrhyw un o'r safonau isod yn llwyr, ar ddiwedd yr adroddiad, rydym wedi nodi ein canfyddiadau a'r camau y mae'n rhaid i'r person cofrestredig eu cymryd er mwyn cydymffurfio a'r rheoliad penodol. Gallai peidio â chydymffurfio â rheoliad fod yn drosedd. Rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai bwriad yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r arolygydd yn ystod digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr gymryd yn ganiataol y bydd y gwasanaeth yr un fath bob amser; weithiau mae gwasanaethau yn gwella ac weithiau'n dirywio.

## Safonau Craidd

Rhif	Pwnc y Safon	Asesiad
C1	Mae cleifion yn cael gwybodaeth eglur a chywir am eu triniaeth.	Safon wedi ei bodloni
C2	Mae'r driniaeth a'r gofal y mae'r claf yn eu derbyn yn rhoi'r claf yn gyntaf.	Safon bron wedi ei bodloni
C3	Mae'r driniaeth a ddarperir ar gyfer cleifion yn unol â chanllawiau clinigol perthnasol.	Safon wedi ei bodloni
C4	Sicrheir cleifion fod ansawdd triniaeth a gofal yn cael ei fonitro.	Safon bron wedi ei bodloni
C5	Ymdrinnir yn briodol ac yn sensitif â gofal terfynol a marwolaeth cleifion.	Safon heb ei harolygu
C6	Mae'r sefydliad yn ceisio barn cleifion, ac yn ei defnyddio i gyfrannu at y ddarpariaeth o driniaeth a gofal, ac ar gyfer darpar gleifion.	Safon wedi ei bodloni
C7	Mae polisïau a gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu i helpu i sicrhau ansawdd y gofal a'r gwasanaethau.	Safon wedi ei bodloni
C8	Sicrheir cleifion fod y sefydliad neu'r asiantaeth yn cael ei redeg gan berson/sefydliad addas, a bod llinell atebolrwydd eglur ar gyfer darparu gwasanaethau.	Safon wedi ei bodloni
C9	Mae cleifion yn derbyn gofal gan aelodau o staff sy'n briodol o ran modd eu recriwtio, eu hyfforddiant a'u cymwysterau.	Safon bron wedi ei bodloni
C10	Mae cleifion yn derbyn gofal gan nyrsys cofrestredig priodol sy'n meddu ar y medrau, y wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol ar gyfer darparu gofal i gleifion yn ddiogel ac yn effeithiol.	Safon wedi ei bodloni
C11	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr sy'n briodol o ran modd eu recriwtio, eu hyfforddiant a'u cymwysterau.	Safon heb ei harolygu
C12	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cydymffurfio â'u codau ymarfer proffesiynol.	Safon heb ei harolygu
C13	Nid yw cleifion a gweithwyr wedi eu heintio gan firysau a gludir yn y gwaed.	Safon bron wedi ei bodloni
C14	Amddiffynnir plant sy'n derbyn triniaeth yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon heb ei harolygu
C15	Amddiffynnir oedolion sy'n derbyn gofal yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon bron wedi ei bodloni
C16	Mae proses gwyno effeithiol ar gael i gleifion.	Safon wedi ei bodloni
C17	Mae cleifion yn cael gwybodaeth briodol am sut i wneud cwyn.	Safon wedi ei bodloni
C18	Mae'n ddyletswydd ar aelodau'r staff a phersonél i fynegi pryderon ynglŷn ag arferion amheus neu wael.	Safon wedi ei bodloni

Rhif	Pwnc y Safon	Asesiad
C19	Mae cleifion yn derbyn triniaeth mewn safle sy'n ddiogel ac yn briodol ar gyfer y driniaeth honno. Pan dderbynnir plant neu pan eu bod yn mynychu ar gyfer triniaeth, mae'r amgylchedd yn addas ar eu cyfe.	Safon bron wedi ei bodloni
C20	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ddefnyddio offer a chyflenwadau sy'n ddiogel ac mewn cyflwr da.	Safon heb ei harolygu
C21	Mae cleifion yn derbyn gwasanaethau arlwyyo priodol.	Safon wedi ei bodloni
C22	Sicrheir cleifion, aelodau o staff ac unrhyw un sy'n ymweld â'r safle cofrestredig fod pob risg sy'n gysylltiedig â'r safle, triniaethau a gwasanaethau yn cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n briodol.	Safon bron wedi ei bodloni
C23	Mae'r mesurau iechyd a diogelwch priodol wedi eu sefydlu.	Safon heb ei harolygu
C24	Mae camau wedi eu sefydlu ar gyfer sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n ddiogel a'i thrafod yn briodol.	Safon bron wedi ei bodloni
C25	Mae meddyginiaeth, rhwymynnau a nwyon meddygol yn cael eu trafod mewn modd saff a diogel.	Safon wedi ei bodloni
C26	Cedwir, rhoddir a gwaredir cyffuriau rheoledig yn briodol	Safon heb ei harolygu
C27	Mae'r risg i gleifion, aelodau'r staff ac ymwelwyr o gael heintiau a drosglwyddir yn yr ysbyty yn cael ei lleihau cymaint â phosib.	Safon wedi ei bodloni
C28	Nid yw cleifion yn derbyn triniaeth â dyfeisiau meddygol sydd wedi eu halogi.	Safon wedi ei bodloni
C29	Mae cleifion yn cael eu dadebru'n briodol ac yn effeithiol.	Safon wedi ei bodloni
C30	Mae contractau yn sicrhau bod cleifion yn derbyn nwyddau a gwasanaethau o ansawdd priodol.	Safon heb ei harolygu
C31	Mae cofnodion yn cael eu creu, eu cynnal a'u cadw i safonau sy'n sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol a rheoliadol yn ogystal ag argymhellion arfer proffesiynol.	Safon wedi ei bodloni
C32	Sicrheir cleifion fod cofnodion iechyd yn cael eu cwblhau'n briodol.	Safon wedi ei bodloni
C33	Sicrheir cleifion fod yr holl wybodaeth yn cael ei rheoli yn y corff rheoledig mewn modd sy'n sicrhau cyfrinachedd cleifion.	Safon heb ei harolygu
C34	Mae unrhyw ymchwil a gynhelir yn y sefydliad/asiantaeth yn cael ei chynnal â chaniatâd ac awdurdodiad priodol unrhyw gleifion dan sylw, yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig ar gynnal prosiectau ymchwil.	Safon heb ei harolygu

**Safonau sy'n Benodol ar Gyfer y Gwasanaeth – mae'r rhain yn benodol ar gyfer y math o sefydliad a arolygir**

Rhif	Safonau Ysbytai Iechyd Meddwl	Asesiad
M1	Gweithio'n unol â Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd Meddwl.	Safon wedi ei bodloni
M2	Cyfathrebu rhwng aelodau staff.	Safon wedi ei bodloni
M3	Cyfrinachedd cleifion.	Safon wedi ei bodloni
M4	Archwiliad clinigol.	Safon bron wedi ei bodloni
M5	Nifer aelodau'r staff a chymysgedd sgiliau.	Safon wedi ei bodloni
M6	Hyfforddiant staff.	Safon bron wedi ei bodloni
M7	Asesu a rheoli risgiau.	Safon bron wedi ei bodloni
M8	Atal hunanladdiad.	Safon bron wedi ei bodloni
M9	Gweithdrefnau dadebru.	Safon wedi ei bodloni
M10	Cyfrifoldeb am wasanaethau fferyllol.	Safon wedi ei bodloni
M11	Dull y rhaglen ofal/rheoli gofal.	Safon wedi ei bodloni
M12	Derbyn ac asesu.	Safon bron wedi ei bodloni
M13	Dull y rhaglen ofal: cynllunio ac adolygu gofal.	Safon wedi ei bodloni
M14	Gwybodaeth i gleifion am eu triniaeth.	Safon bron wedi ei bodloni
M15	Cleifion ag anableddau datblygiadol.	Safon heb ei harolygu
M16	Therapi Electro-Ddirdynnol (ECT.)	Safon heb ei harolygu
M17	Rhoi meddyginiaeth.	Safon bron wedi ei bodloni
M18	Hunanfeddyginiaethu.	Safon wedi ei bodloni
M19	Triniaethau ar gyfer dibyniaeth.	Safon wedi ei bodloni
M20	Trosglwyddo cleifion.	Safon wedi ei bodloni
M21	Rhyddhau cleifion.	Safon heb ei harolygu

M22	Cofnodion cleifion	Safon bron wedi ei bodloni
M23	Grymuso.	Safon wedi ei bodloni
M24	Trefniadau ymweld.	Safon wedi ei bodloni
M25	Gweithio gyda gofalwyr ac aelodau o'r teulu.	Safon bron wedi ei bodloni
M26	Arferion gwrthwahananiaethol.	Safon wedi ei bodloni
M27	Ansawdd bywyd ar gyfer cleifion.	Safon bron wedi ei bodloni
M28	Arian cleifion.	Safon heb ei harolygu
M29	Cyfyngiadau a diogelwch ar gyfer cleifion.	Safon wedi ei bodloni
M30	Lefelau arsylwi.	Safon wedi ei bodloni
M31	Rheoli ymddygiad cynhyrfus.	Safon wedi ei bodloni
M32	Rheoli digwyddiadau difrifol/niweidiol.	Safon wedi ei bodloni
M33	Marwolaeth annisgwyl claf.	Safon wedi ei bodloni
M34	Cleifion yn dianc.	Safon wedi ei bodloni
M35	Ataliad cleifion ac atal yn gorfforol.	Safon bron wedi ei bodloni
M41	Sefydliadau lle y darperir triniaethau ar gyfer unigolion sydd dan gadwad – gwybodaeth ar gyfer y staff.	Safon heb ei harolygu
M42	Hawliau cleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Safon wedi ei bodloni
M43	Neilltuo cleifion.	Safon yn amherthnasol
M44	Absenoldeb â chaniatâd dan adran 17.	Safon bron wedi ei bodloni
M45	Absenoldeb heb ganiatâd dan adran 18.	Safon heb ei harolygu
M46	Rhyddhau cleifion dan gadwad.	Safon heb ei harolygu
M47	Hyfforddi'r staff ynglŷn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.	Safon bron wedi ei bodloni

## Atodlenni Gwybodaeth

Mae'r atodlenni gwybodaeth yn nodi manylion y wybodaeth y mae'n rhaid i'r person cofrestredig ei darparu, ei chadw neu ei chofnodi, o ran cofnodion penodol.

Rhaglen	Manylion	Asesiad
1	Y wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y Datganiad o Ddiben.	Bodlonwyd
2	Mae angen gwybodaeth am unigolion sydd eisiau rhedeg, rheoli, neu weithio mewn sefydliad.	Bodlonwyd
3 (Rhan I)	Y cyfnod y mae'n rhaid cadw cofnodion meddygol.	Bodlonwyd
3 (Rhan II)	Cofnodion y mae'n rhaid eu cadw ar gyfer eu harchwilio.	Bodlonwyd
4 (Rhan I)	Y manylion y mae'n rhaid eu cofnodi o ran cleifion sy'n derbyn gwasanaethau obstetreg.	Amherthnasol
4 (Rhan II)	Y manylion y mae'n rhaid eu cofnodi o ran plentyn a anwyd mewn ysbyty annibynnol.	Amherthnasol

## Gofynion

Mae'r gofynion isod yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaid â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 a ganfuwyd o ganlyniad i asesu'r safonau a nodir yn y golofn ar y llaw chwith a gwybodaeth arall yr ydym wedi ei derbyn gan y darparwr ac amdano/amdani. Cyfrifoldeb y '*person cofrestredig*' yw'r gofynion, a allai fod, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, naill ai'r darparwr cofrestredig neu'r rheolwr cofrestredig ar gyfer y sefydliad neu'r asiantaeth. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gofyn i'r person cofrestredig ddarparu '*cynllun gweithredu*' i gadarnhau sut y maent yn bwriadu gweithredu'r camau gofynnol, a byddant, os bydd angen, yn cymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r rheoliad a nodir.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
C2, M7 M12 a M14	15 (1)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod rhai cynlluniau gofal yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd. Hefyd, nid oedd gan un claf asesiad risg na chynllun rheoli am sawl wythnos ar ôl cael ei dderbyn. Gwelwyd peth dystiolaeth yr ystyrir safbwyntiau'r cleifion ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth, ond nid oedd unrhyw gofnod bod y drefn feddyginiaeth na'r sgil effeithiau sy'n wybyddus yn cael eu cofnodi'n llawn a'u hesbonio wrth y cleifion.</p>	O fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr adroddiad hwn

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
		<p><b>Camau Gofynnol</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y cynlluniau gofal yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd ac y cofnodir yn eglur bod safbwyntiau'r cleifion ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth yn cael eu hystyried.</p>	
C4 a M4	16 (1) a (2)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Cynhaliwyd archwiliad diwethaf Craegmoor yn ystod 2008 a rhaid ailadrodd yr archwiliad cynhwysfawr hwn.</p> <p><b>Camau Gofynnol</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod archwiliad Craegmoor yn cael ei ailadrodd a bod copi o'r adroddiad yn cael ei anfon at AGIC.</p>	O fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr adroddiad hwn
C13	14 (6)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod yr holl staff wedi derbyn y brechiadau gofynnol ac roedd yn ymddangos bod hon yn broblem benodol yn achos staff a oedd newydd eu penodi a'r rhai hynny a oedd wedi gwrthod y brechiadau a oedd ar gael.</p> <p><b>Camau Gofynnol</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y cedwir cofnod o'r holl frechiadau sydd wedi eu rhoi i'r staff.</p>	O fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr adroddiad hwn
C15, C19, M6 M35, M47	17 (2) (a) 24 (4) (c)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Roedd nifer o'r staff, gan gynnwys ymarferwyr meddygol, heb dderbyn hyfforddiant ynglŷn ag Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, atal tân, rheoli unigolyn sy'n ymosodol gan gynnwys ymyriad corfforol a Deddf Iechyd Meddwl 1983.</p>	O fewn 28 diwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn.



Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
		<p><b>Camau Gofynnol</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod gan y staff y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad er mwyn cyflawni eu swyddogaethau ac felly mae'n ofynnol iddynt dderbyn hyfforddiant ynglŷn ag Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, atal tân, rheoli unigolyn sy'n ymosodol gan gynnwys ymyriad corfforol a Deddf Iechyd Meddwl 1983.</p>	
C22 M7 ac M8	24 (2) (d)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Roedd asesiad risg o fannau rhwymo wedi ei gynnal yn y sefydliad ac roedd nifer o beryglon amgylcheddol wedi eu canfod.</p> <p><b>Camau Gofynnol</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau nad oes unrhyw beryglon i iechyd y cleifion mewn unrhyw ran o'r sefydliad y maent yn gallu mynd iddi, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Rhaid llunio cynllun gweithredu felly sy'n cynnwys amserlenni penodol er mwyn rheoli'r risgiau a nodwyd yn yr asesiad risg o fannau rhwymo.</p>	Rhaid i AGIC dderbyn cynllun gweithredu ynglŷn â sut y bydd yr ysbyty yn ymdrin â'r maes hwn o fewn 14 diwrnod i ddyddiad yr adroddiad hwn.
C24, M17	14 (5)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Archwiliwyd sampl ar hap o siartiau rhagnodi, a nodwyd bod un cofnod ar gyfer claf nad oedd yn cyd-fynd â'r cyfarwyddiadau ar y blwch meddyginiaeth ac nad oedd y rhagnodwr wedi ei lofnodi. Defnyddir Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain fel ffynhonnell er mwyn cyfeirio ato, ac roedd copi ar gael ond gyda'r dyddiad Mawrth 2009.</p>	Ar unwaith ac yn barhaus.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
		<p><b>Camau Gofynnol</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod cofnodion rhagnodi cleifion unigol yn cyd-fynd â'r cyfarwyddiadau ar y blwch meddyginiaeth a rhaid i'r rhagnodwr lofnodi pob cofnod rhagnodi. Hefyd, rhaid sicrhau bod copi cyfredol ar gael o Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain.</p>	
M44	15 (1)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>O ran caniatâd i adael dan Adran 17, nid oedd yr holl amodau bob amser wedi eu cofnodi ar ffurflen caniatâd i adael Adran 17 ac nid oedd y cleifion yn derbyn copïau o'r ffurflenni priodol fel rhan o'r drefn arferol.</p> <p><b>Camau Gofynnol</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod yr holl amodau sy'n berthnasol i ganiatâd i adael dan Adran 17 wedi eu cofnodi ar y ffurflen caniatâd i adael Adran 17 a bod y cleifion yn derbyn copïau o'r ffurflenni priodol fel rhan o'r drefn arferol.</p>	Ar unwaith ac yn barhaus.
	24 (2) (b)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd man ymweld a oedd yn addas i blant yn y sefydliad.</p> <p><b>Camau Gofynnol</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig ddarparu man ymweld sy'n addas i blant o fewn y sefydliad.</p>	Rhaid anfon cynllun gweithredu ynglŷn â sut y bydd yr ysbyty yn ymdrin â'r maes hwn at AGIC o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn.

## Argymhellion

Gallai argymhellion ymwneud ag agweddau ar y safonau neu â'r canllawiau cenedlaethol. Maent wedi eu nodi er mwyn i'r personau cofrestredig eu hystyried ond nid ydynt yn cael eu gorfodi yn gyffredinol.

Safon	Argymhelliad
C9	Dylai ymarferwyr meddygol lofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w maes gwaith.
M22	Dylai cofnodion y cleifion gael eu cyfuno i greu un cofnod amlddisgyblaethol.
M25	Dylai tystiolaeth fod ar gael y rhoddir cyfle i ofalwyr a theuluoedd cleifion ymwneud ag agweddau ar raglen driniaeth y cleifion. Os nad yw hyn yn briodol, dylid cofnodi'r ffaith yn eglur.
M27	Dylid cynyddu a gwella'r ystod o weithgareddau hamdden a gweithgareddau cymdeithasol. Roedd yn ymddangos bod hon yn broblem benodol ar y penwythnosau.

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn bodoli i hybu gwelliannau mewn iechyd a gofal iechyd. Mae'n ddyletswydd statudol arnom i asesu perfformiad sefydliadau gofal iechyd, dyfarnu graddfeydd perfformiad blynyddol ar gyfer y GIG a chydgyssylltu adolygiadau o ofal iechyd gan eraill. Wrth wneud hyn, ein nod yw lleihau'r baich rheoleiddio ar sefydliadau gofal iechyd a chydgyssylltu'r asesiadau o ofal iechyd a ddarperir gan y GIG a'r sector annibynnol (preifat a gwirfoddol).

Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ond nid ar gyfer ail werthu masnachol. Cewch atgynhyrchu'r Adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r caniatâd hwn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn fanwl gywir, ac ar beidio â'i ddefnyddio mewn modd dirmygus neu gyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod y deunydd fel © 2011 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a nodi teitl y ddogfen dan sylw. Dylid cyflwyno cais am atgynhyrchu yn ysgrifenedig at: Y Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Parc Busnes Caerffili, Caerffili, CF83 3ED